



Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

8 Hydref 2019

Annwyl Mick

Ysgrifennaf i roi gwybod i chi y byddaf, yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, yn mynd i gyfarfod Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) ar 10 Hydref 2019.

Bydd y cyfarfod yn trafod Parodrwydd ar gyfer Ymadael, negodiadau â'r UE a'r fframweithiau cyffredin.

Byddaf yn egluro ein safbwynt, sef y byddwn, o wynebu dewis rhwng Brexit heb gytundeb ac aros yn yr UE, yn ymgychu i aros, ac ein bod hefyd yn credu bod angen refferendwm er mwyn datrys y sefyllfa bresennol. Byddaf yn pwysu ar Lywodraeth y DU i roi manylion unrhyw drafodaethau rhwng Llywodraeth y DU a'r UE ar y cynigion diweddaraf a'r camau nesaf ar gyfer dod i gytundeb neu geisio estyniad i broses erthygl 50 fel yr amlinellir mewn deddfwriaeth os na cheir cytundeb.

Mewn perthynas â'n parodrwydd i ymadael, rwyf wedi bod yn glir bob amser y byddai ymadael heb gytundeb yn drychinebus i Gymru ac i'r DU gyfan. Cyhyd â bod y perygl o ymadael heb gytundeb yn dal i'n hwynebu, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud popeth a allwn i baratoi. Mae ein Cynllun Gweithredu, a gyhoeddwyd ar 16 Medi, yn amlinellu'r peryglon strategol a allai godi pe bawn yn ymadael heb gytundeb, a'r camau gweithredu rydym yn eu cymryd i geisio lliniaru'r effeithiau hyn. Ond, byddaf yn pwysleisio eto ei bod yn wirioneddol amhosibl lliniaru'r canlyniadau i gyd.

Byddaf hefyd yn cadarnhau pa mor bwysig yw hi i Lywodraeth y DU rannu gwybodaeth â ni, yn ogystal ag ymgysylltu â ni mewn ffordd ystyrlon, yn hytrach nag arwynebol. Hefyd, bydd arnom angen iddynt gyhoeddi rhagor o gyllid i gefnogi'r amrywiaeth o gamau gweithredu y mae'n rhaid paratoi ar eu cyfer er mwyn lliniaru effeithiau Brexit heb gytundeb.

Byddaf yn parhau i alw ar gael cynrychiolaeth o'r gweinyddiaethau datganoledig ar dimau negodi'r DU, ac yn pwysleisio ein hymrwymiad i sicrhau na ddylid cyflwyno safbwyntiau negodi'r DU i'r UE fel rheol heb gytundeb y Gweinyddiaethau Datganoledig mewn perthynas â'r materion hynny sydd o fewn ein cymhwysedd. Yn ogystal â hyn, byddaf yn pwysu ar yr angen i sicrhau cynnydd cyflym o ran adolygiad Dunlop.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

PSCGBM@gov.wales / YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn ailddatgan y rôl ganolog sydd i'w chwarae gan y fframweithiau cyffredin a'r disgwyliad y bydd yr holl Fframweithiau wedi'u cwblhau erbyn diwedd 2020.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

A handwritten signature in black ink, appearing to be 'J Miles', with a stylized, cursive script.

Jeremy Miles AC

Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister